Julie James AC
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

13 Mawrth 2020

Annwyl Weinidog,

**Y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – gwelliannau arfaethedig drafft ar bleidleisio gan garcharorion**

Diolch am eich llythyr ar 29 Ionawr yn gofyn am farn y Pwyllgor am welliannau arfaethedig drafft i'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i alluogi rhai carcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa yng Nghymru i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Diolch am y wybodaeth ategol ddilynol i hwyluso trafodaeth y Pwyllgor.

Er ein bod wedi cynnal ymchwiliad o'r blaen i hawliau pleidleisio i garcharorion, roeddem yn canolbwyntio ar yr egwyddorion ynghylch a ddylid caniatáu i garcharorion bleidleisio; mae hyn yn wahanol i drafod cynigion deddfwriaethol penodol. Cyhoeddwyd adroddiad ein hymchwiliad ym mis Mehefin 2019, felly mae'n siomedig nad oedd modd i chi gynnwys y darpariaethau yn y Bil hwn wrth ei gyflwyno.

Nodwn fod y gwelliannau drafft yn darparu y bydd carcharorion yn cael yr hawl i bleidleisio os cawsant ddedfryd o lai na phedair blynedd o garchar, fel yr argymhellwyd yn ein hadroddiad. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau, yn enwedig nad yw'r hawl i bleidleisio'n cynnwys carcharorion a gafwyd yn euog o droseddau o dan adran 173 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 sy'n ymwneud

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
0300 200 6565

ag arferion llwgr ac anghyfreithlon mewn perthynas ag etholiadau. Er na wnaethom argymell dull o'r fath, rydym yn deall y rhesymeg dros y cyfyngiad hwn.

Dargyfeiriad mwy arwyddocaol i'n hargymhelliad yw y byddai'r gwelliannau drafft yn galluogi carcharorion i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, ond nid yn etholiadau'r Senedd. Rydym yn ymwybodol, o'ch llythyr ar 18 Medi 2019, mai bwriad Llywodraeth Cymru yw deddfu i weithredu newid o'r fath ar gyfer etholiadau'r Senedd maes o law. Nodwn, yn unol ag adran 111A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y byddai angen i uwchfwyafrif o Aelodau'r Cynulliad gytuno ar ddeddfwriaeth i estyn yr etholfraint i etholiadau'r Senedd.

Nodwn, er mwyn gweithredu'r newid hwn ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, y byddai'r gwelliannau drafft yn creu etholfreiniau gwahanol ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol. Gan na chynhwyswyd yr adrannau hyn yn y Bil wrth ei gyflwyno, nid ydym wedi gallu casglu barn rhanddeiliaid allweddol megis y Comisiwn Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol na Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru ar oblygiadau'r hyn y mae'n ymddangos y gallai fod yn wahaniaeth arwyddocaol mewn etholfraint rhwng etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol.

Pe baech yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i alluogi carcharorion i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, rydym yn disgwyl y bydd ystod lawn o wybodaeth ategol yn cyd-fynd â'r rhain, gan gynnwys nodiadau esboniadol, datganiad polisi yn esbonio canlyniad yr ymgynghoriad ac amcangyfrif realistig o oblygiadau ariannol y darpariaethau newydd.

Yn gywir,

John

John Griffiths
Cadeirydd
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.